

Effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol

Medi 2020

1. Cefndir

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn edrych ar effaith argyfwng COVID-19 ar feysydd sydd o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol.

Cafodd y Pwyllgor gyfraniadau ysgrifenedig a chlywodd dystiolaeth lafar gan randdeiliaid rhwng mis Mai a mis Awst 2020. Mae rhestr o'r holl gyfranwyr ar gael yn Atodiad A.

2. Cyflwyno adroddiad yn ystod yr argyfwng

Cyfryngau lleol a rhanbarthol

1. Clywodd y Pwyllgor y bu awydd enfawr am newyddion yn ystod y pandemig¹ ac un peth cadarnhaol y gellir ei gymryd o'r cyfnod hwn yw'r ymchwydd mewn diddordeb mewn newyddion lleol². Dywedodd Emma Meese, Cyfarwyddwr Newyddiaduraeth Gymunedol ym Mhrifysgol Caerdydd y canlynol:

'...particularly in the early days of the pandemic, it shows there was a real appetite from people wanting to know, 'How is this going to affect me?' This is what we all want to know when it comes to local news, 'Well, how does it affect me?'³

¹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 12

² Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 30

³ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 30



2. Fodd bynnag, dywedodd Paul Rowland, Prif Olygydd Media Wales, ei bod wedi bod yn heriol iawn ceisio cydbwysu rhoi sylw i stori mor enfawr ag amgylchedd masnachu mor anodd yn y cefndir.⁴ Yn ôl Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, mae'r argyfwng wedi 'amlygu'r anawsterau mae'r cyfryngau yng Nghymru yn eu hwynebu wrth iddynt geisio gwasanaethu ei phoblogaeth yn ddigonol.'⁵

3. Clywodd y Pwyllgor fod yr argyfwng, ar gyfer cyfryngau print, wedi gwaethygu problem sydd wedi bod yn yr arfaeth ers ugain mlynedd – y newid i sianeli digidol o rai print a'r dirywiad mewn refeniw hysbysebu a ddaw yn sgil hynny. Dywedodd Dr Ifan Morgan Jones, darlithydd mewn newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Bangor a sefydlwr a golygydd y wefan newyddion Nation.Cymru, y canlynol:

'O ran effaith coronafeirws ar y sector, beth sydd angen ei bwysleisio dwi'n credu yw bod yr argyfwng yma wedi bod yn dod ers amser hir. Mae wedi bod yn 20 mlynedd, ers dechrau datganoli mewn gwirionedd, ers i newyddiaduraeth ar-lein ddechrau disodli mathau mwy proffidiol o newyddiaduraeth fel print, ac yn anffodus, er gwaethaf datganoli, dwi ddim yn meddwl ein bod ni fel cenedl wedi gwneud ryw lawer i fynd i'r afael â'r broblem yma.'⁶

4. Yn ôl Dr Jones, mae 'pobl Cymru ar y cyfan yn gymharol anwybodus ynglŷn â datganoli yng Nghymru, ac mae hynny'n ganlyniad uniongyrchol, i raddau, i wendid y cyfryngau Cymreig' a bod angen 'cryfhau'r cyfryngau yng Nghymru'⁷. Esboniodd mai'r broblem yng Nghymru yw 'ein bod ni ddim wedi gallu dod o hyd i fodel busnes sydd yn gallu cynnal newyddiaduraeth ar-lein i'r un graddau ag yr oedd mathau traddodiadol o newyddiaduraeth yn ei wneud'⁸ ac awgrymodd fodel newydd o ddarparu newyddion megis 'newyddiaduraeth ddigidol yng Nghymru i fynd tu ôl i wal dalu.'⁹

5. Dywedodd Dr Jones wrth y Pwyllgor mai'r perygl gyda model o'r fath yw y byddai'n gallu:

'...creu sefyllfa lle y bydd newyddiaduraeth Brydeinig wedi'i chefnogi gan hysbysebion yno am ddim ac yn hyfyw i bobl, ond bydd

⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 12

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

⁶ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 43

⁷ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 44

⁸ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 46

⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 51

newyddiaduraeth Gymraeg y tu ôl i wal dalu ddim. Ac o ganlyniad i hynny, mi fydd pobl yn troi fwyfwy at newyddiaduraeth Brydeinig sydd ddim yn talu ryw lawer o sylw ac yn deall y gwahaniaethau rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig.¹⁰

6. Felly, galwodd am gefnogaeth annibynnol, gyhoeddus i newyddiaduraeth yng Nghymru:

'...beth fuaswn i'n awgrymu ydy rhyw fath o gorff annibynnol sydd wedi ei staffio yn ddelfrydol gan bobl annibynnol sydd â phrofiad fel newyddiadurwyr ac yn rhedeg gwasanaethau cyfryngau i eistedd arno fo a phenderfynu lle mae'r math o arian yna yn cael ei ddsbarthu. Dylai'r arian yna fynd nid at gwmnïoedd er elw fel Reach ac eraill sydd yn bodoli tu allan i Gymru ac yn talu budd-daliadau, ond yn hytrach i gwmnïoedd annibynnol nid-er-elw cydweithredol sydd yn eiddo i newyddiadurwyr neu bobl eraill o fewn Cymru.'¹¹

7. Yn ôl Dr Jones y 'peth gwaethaf y gallwn ni ei wneud, efallai, ydy defnyddio arian cyhoeddus er mwyn ceisio cynnal y model presennol'¹² Fodd bynnag, dywedodd yr Athro Stephen Cushion, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd, y canlynol:

'...I worry that, if we focus too much on just producing a kind of online newspaper, or online digital site, in Wales, it may well make people that are already informed even more informed, but the people that aren't particularly that attentive to the news, it's probably just going to pass them by, and they'll continue to tune in to the 10 o'clock news on BBC and ITV and Channel 4, and they could be talking past each other.'¹³

8. Hefyd, clywodd y Pwyllgor y gallai cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru wella gyda buddsoddiad ar lefel hyperleol. Dywedodd Emma Meese wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cydnabod y gwerth a ddaw o newyddion annibynnol a bod buddsoddiad mewn cyhoeddiadau newyddion annibynnol, llai.¹⁴ Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

¹⁰ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 51

¹¹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 53

¹² Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 53

¹³ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 61

¹⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 33

'...by supporting independent news, what we are ensuring is that we are maintaining plurality of voice, because if we lose the independent sector, then pretty much overnight you lose all plurality of voice, and the impact on democracy doesn't even bear thinking about.'¹⁵

9. Dywedodd Gavin Thompson, golygydd rhanbarthol Cymru yn Newsquest, mai un peth sydd wedi bod yn anodd yn ystod y pandemig yw bod gwaith craffu ar benderfyniadau lleol wedi dod yn llawer anoddach mewn rhai ardaloedd naill ai oherwydd nad yw cynghorau ac awdurdodau lleol yn cyfarfod neu oherwydd nad ydynt yn ffrydio eu cyfarfodydd. Dywedodd y canlynol:

'...in our east Wales newsroom, for example, we have two local democracy reporters...They do great work covering all five councils across Gwent, but during COVID that's become harder because, for example, I think Newport has held one cabinet meeting so far. And not only was it not live streamed, but it wasn't uploaded online anywhere for about two weeks. So, by the time we could report it, it was largely out of date...Obviously, these things were done because there was a crisis situation, but I think it's unhealthy for democracy if decisions are not being made in public where a reporter can watch live, even if it's not in person, and be able to report them.'¹⁶

Radio cymunedol

10. Dywedodd Steve Johnson, tiwtor radio cymunedol, Prifysgol De Cymru, wrth y Pwyllgor y bu radio cymunedol yn gwbl amhrisiadwy¹⁷ yn ystod y pandemig a'i fod wedi ychwanegu llinyn arall at yr haenau o ddarpariaeth newyddion ar gyfer cymunedau Cymru.¹⁸

11. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru fod gorsafoedd radio cymunedol 'wedi bod yn paratoi gwybodaeth diogelwch hanfodol i'r cyhoedd mewn ffurf bwletinau radio a negeseuon allweddol i boblogaethau lleol ledled Cymru', sydd wedi helpu i 'achub bywydau, wedi addysgu a hysbysu pobl o'r peryglon, a throsglwyddo

¹⁵ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, Paragraff 34

¹⁶ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 223

¹⁷ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 151

¹⁸ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 149

gwybodaeth hanfodol gan y Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru'.¹⁹
Yn ôl Môn FM:

'...community radio became the main channel for up to date local and accurate information from Public Services and Welsh Government. It was useful to have a daily on-line 'podium' briefing from Welsh Government...however the content was very 'journalistic' and questions were naturally interviewer led. More specific information was required for North-West Wales...i.e. people need to know what is the advice locally as well as Nationally - this is where MônFM was well able to compliment the National picture to provide a fuller and richer picture of advice and information for its respective transmission service area.'²⁰

12. Dywedodd Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru wrth y Pwyllgor na ddylid tan-werthfawrogi gwaith gorsafoedd radio cymunedol, 'yn enwedig pan fo cylchrediad papurau newydd lleol a rhanbarthol yn dirywio, a sianeli cyfathrebu eraill yn gyfyngedig'.²¹ Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y canlynol:

'Ofcom have made emergency short term COVID-19 restricted service licences available to enable local people to receive information pertinent to their communities on FM rather than relying [on] a Wales wide or national perspective. The rate and spread of COVID-19 differed across Wales and so this provision has ensured that accurate local information tailored to our area has been delivered to those who perhaps may not have access to the internet or mobile devices.'²²

13. Fodd bynnag, yn ôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ni fydd Ofcom yn trwyddedu trwyddedau radio cymunedol ychwanegol ar FM mwyach:

'Locally there is a call for this policy to be re-considered so that temporary COVID-19 stations or stations that are looking to support communities as they re-build their futures are allowed to set up quickly, efficiently and at relatively low cost...We understand that the timescales of the licensing process can be longwinded which could

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Môn FM

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru

²² Tystiolaeth ysgrifenedig COV31 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

cause delays (4 – 5 years), leaving a gap in provision when our communities need access to information and services most.’²³

14. Dywedodd Steve Johnson wrth y Pwyllgor fod rhai newidiadau cadarnhaol tuag at negeseuon a hysbysebion DGC (Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus) y Llywodraeth sy'n mynd drwy radio cymunedol. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud bod lle i fwy ac y byddai partneriaeth rhwng gorsafoddedd radio cymunedol ar draws Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda i'r ddwy ochr.²⁴

15. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r sector radio cymunedol yng Nghymru i werthuso sut y mae radio a chyfryngau lleol ar lawr gwlad wedi helpu cymunedau i ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng a pha rôl y gall ei chael yn y dyfodol o ran cymorth i'r sector.²⁵

Sylw i faterion datganoli gan ddarparwyr newyddion y DU

16. Clywodd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar gyfryngau ledled y DU neu gyfryngau yn Lloegr i gael eu newyddion. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, o ganlyniad i hyn, y 'daeth yn amlwg yn fuan bod lledaenu cyhoeddiadau a negeseuon hanfodol ar iechyd yn cael ei rwystro'.²⁶ Dywedodd Gavin Thompson, nad oes dim amheuaeth, o ran pa mor wybodus y bu'r cyhoedd yng Nghymru, y bu dryswch.²⁷

17. Ym mis Ebrill, ysgrifennodd y Pwyllgor at Bwyllgor Materion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin yn **amlinellu** ei bryderon bod darparwyr newyddion y DU wedi cyhoeddi gwybodaeth yn aml yn ystod y pandemig sy'n adrodd yn anghywir ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru.²⁸ Roedd llythyr y Pwyllgor mewn ymateb i alwad y Pwyllgor Materion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am enghreifftiau o gamwybodaeth a

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

²⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 209

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

²⁷ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 145

²⁸

<https://busnes.senedd.cymru/documents/s100640/Letter%20from%20the%20Chair%20of%20the%20Culture%20Welsh%20Language%20and%20Communications%20Committee%20to%20the%20Chair%20of%20th.pdf>

thwyllwybodaeth am y coronafeirws, fel rhan o'i waith parhaus ar 'newyddion ffug'. Dywedodd y Pwyllgor nad oes angen i'r Pwyllgor Materion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 'edrych ar y cyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i enghreifftiau o wybodaeth ffug niweidiol am y coronafeirws'.

18. Ategwyd yr honiad hwn gan yr Athro Stephen Cushion. Cwblhaodd yr Athro Cushion a'i gydweithwyr astudiaeth ddyddiadur chwe wythnos gyda 200 o gyfranogwyr ar draws y DU am eu patrymau o ran gweld a chlywed newyddion, eu hymddiriedaeth mewn cyfryngau gwahanol a'r llywodraeth a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o newyddion a pholisïau. Fel rhan o'r astudiaeth, gwnaethant hefyd fonitro bwletinâu newyddion y DU gyda'r hwyr ar y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky News i edrych ar sut roeddent yn adrodd ar y pandemig. Yn ôl yr Athro Cushion:

'...we recognised quite soon that there was quite a lot of confusion around the devolved measures and the differences across the UK, and also the coverage could've been a lot clearer in its presentation across the evening bulletins.'²⁹

19. Ddechrau mis Mai, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ai Llywodraeth y DU, neu Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, oedd yn gyfrifol am fesurau'r cyfyngiadau symud. Dywedodd yr Athro Cushion wrth y Pwyllgor mai Llywodraeth y DU oedd ateb anghywir hanner yr ymatebwyr. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

'They could get things like—they knew that schools were going back in England, that people could exercise once a day and meet other people and exercise once a day, but they didn't know that there were differences across Scotland and Wales in terms of staying in your local environment...

Also in that period of time, we showed them the UK Government's new guidance to stay alert rather than stay home, and we found nearly half of people, again, didn't realise that was England only; a third, actually, thought it was UK-wide Governments.'³⁰

20. Roedd yr astudiaeth o fwletinâu newyddion y DU gyda'r hwyr a bod eu sylw i brif gyhoeddiadau Llywodraeth y DU ar y cyfyngiadau symud yn cynnwys dadansoddiad ynghylch a oedd unrhyw eglurder ynghylch perthnasedd

²⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 17

³⁰ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraffau 18-19

daearyddol polisi penodol yn ystod y penawdau, yn y cyflwyniad i'r eitem ac yn yr eitem ei hun.³¹ Yn ôl yr Athro Cushion:

'The first date we looked at, on 23 March, was a big announcement. It was an announcement about only exercising once a day, about the closing of non-essential shops across the UK. Now, it was framed very much as a UK decision, but...it was an agreement across the four nations. But the devolved bodies weren't mentioned at all in any of the coverage that we looked at...And it's important to bear in mind, at that point in time, the BBC News at Six and BBC News at Ten were getting upwards of 20 million viewers a week and people were extremely attentive to news at that particular time.'³²

21. Esboniodd yr Athro Cushion i'r Pwyllgor y newidiodd pethau ychydig ar 28 Mai, pan gyhoeddwyd y câi grwpiau o chwech o bobl gwrdd yn Lloegr:

'They changed the framing of it, so rather than being 'in' the UK, it was 'across' the UK. So, it was kind of alluding to the fact that there were differences going on. And within headlines as well, there was a prefix of 'in England' that was present much more in headlines. But, occasionally, the headlines miss out that 'in England' or in live two-ways. It's not explicitly spelt out, those differences.'³³

22. Canfu'r astudiaeth fod newid o sôn am y DU i sôn am Loegr ar y pedwar dyddiad a gafodd eu monitro rhwng mis Mawrth a mis Mehefin, ond cyfeiriadau cyfyngedig at ddatganoli.³⁴ Dywedodd yr Athro Cushion fod hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch pa mor benodol y dylai cyfryngau newyddion y DU fod:

'If they say 'UK', that can be inaccurate; if they don't give a geographical reference, then that's sloppy. It's not necessarily inaccurate, but it doesn't tell and educate the viewer. Implicit references are now much more common, where you say 'in England', but we've always recommended that if you really want to educate and inform a viewer, you really need to be quite clear-cut and explicitly spell out the

³¹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 20

³² Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 21

³³ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 23

³⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 26

differences by naming England, Scotland, Wales and Northern Ireland, so a viewer can see if something's relevant or is not relevant.'³⁵

23. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd BBC Cymru y bu 'ymrwymiad clir' gan BBC News 'i egluro'r gwahaniaethau ar draws y DU ac i danlinellu i gynulleidfaedd pan fydd polisïau a rheoliadau yn berthnasol i genedl benodol yn y DU yn unig':

'Pan gyhoeddwyd newidiadau mawr i'r rheoliadau yng Nghymru, rhoddwyd sylw i'r stori ar bob gwasanaeth, gan gynnwys erthyglau ar-lein ac ymateb byw a phecynnau ar deledu a radio. Yn ogystal, pan gafwyd cyhoeddiadau mawr sy'n effeithio ar Loegr yn unig, mae'r BBC News at Six a'r BBC News at Ten wedi cynnwys elfen fyw o bob un o'r cenhedloedd, er mwyn pwysleisio'r gwahaniaethau polisi.'³⁶

24. Yn ogystal, esboniodd BBC Cymru fod gan y BBC 'fentrau penodol i fynd i'r afael â gwybodaeth gamarweiniol' a'i bod wedi 'creu tîm pwrpasol sy'n taclo camwybodaeth yn ddyddiol' yn ystod y pandemig.³⁷

25. Yn yr un modd, dywedodd Phil Henfrey, pennaeth newyddion a rhaglenni, ITV Cymru, y canlynol:

'...there are things that have been built into the system now that make sure that what's coming up in Wales is on the agenda of the national team and then, when mistakes do happen, there's a very quick...referral system that points out that mistake and looks to seek to understand how that mistake was made, and then we look to correct it so it doesn't happen again.'³⁸

26. Dywedodd Andrew Dagnell, pennaeth casglu newyddion, ITV News, wrth y Pwyllgor eu bod wedi sicrhau sylw i faterion datganoli ar newyddion y rhwydwaith mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, esboniodd, pan oedd stori'n benodol i Loegr neu i Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, y defnyddiwyd dilyniant graffig yn esbonio'r sefyllfa ar draws gweddill y DU.³⁹ Yn ail, dywedodd eu bod yn sicrhau bod adegau pwysig yn y pandemig ac yn ymateb Cymru i'r pandemig wedi cael sylw fel

³⁵ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 26

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig BBC Cymru

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig BBC Cymru

³⁸ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 161

³⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 154

darnau annibynnol gan ohebydd Cymru'r rhwydwaith.⁴⁰ Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

'So, for example, when lockdown was easing, when the 'stay local' message was lifted at the beginning of this month, that was something that we did as a piece. In late June, when Welsh schools were returning, that was something that we did as a piece...

So, I like to think that we have done our part to enhance the UK-wide understanding of devolution. There's always more that can be done, I would say, but I feel as though we've been quite clear about it with viewers.'⁴¹

27. Yn ôl Andrew Dagnell, byddai data safonedig o gymorth mawr i waith adrodd ITV ar Gymru. Esboniodd y canlynol:

'I think there's a lot to be said about being able to compare the way in which different nations approach issues like tackling the pandemic, but we often come unstuck because the data that we're comparing between nations—. Because the nations rightly choose their own path in terms of how they're approaching data, we get a little bit unstuck because we can't directly compare like for like...

...it's quite hard, for example, to compare testing figures in Wales to testing figures in England because various different metrics are used. So, if there was a more standardised data set...that would enable us to kind of get into the nations a lot easier. Obviously, we should be covering stories from Wales that are just Welsh stories, but being able to have that comparator would also be very helpful.⁴²

28. Dywedodd yr Athro Stephen Cushion wrth y Pwyllgor y gellir gwneud mwy o ran atgoffa darlledwyr am eu hymrwymiad i'r pedair gwlad ynghylch newyddion rhwydwaith y DU. Dywedodd y canlynol:

'...it's constantly worth engaging with broadcasters, engaging with regulators, to ensure that that's constantly on the agenda. It's been

⁴⁰ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 155

⁴¹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraffau 155-156

⁴² Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraffau 231-232

brought into sharper focus because of the lockdown, but it needs to continue.'⁴³

29. Esboniodd yr Athro Cushion fod gan Ofcom rôl bwysig wrth gynnal safonau cywirdeb, yn ogystal â didueddrwydd.⁴⁴

30. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr fod Cyngor Gweithredu Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliad cenedlaethol i'r modd y mae negeseuon iechyd y cyhoedd yn cael eu lledaenu yn ystod yr argyfwng.⁴⁵

Gwerth darlledu gwasanaeth cyhoeddus

31. Clywodd y Pwyllgor fod y pandemig wedi tynnu sylw at y rôl bwysig a fu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth ddarparu newyddion a gwybodaeth yn ystod y pandemig. Dywedodd Phil Henfrey y canlynol:

'...the fact that we provide trusted mass-reach journalism about Wales for free and then we make it universally available to our audiences, then I think the past 17 weeks...have only served to underline the vital role that commercially funded broadcasting plays in Wales.'⁴⁶

32. Yn ôl BBC Cymru, 'mae cynulleidfaoedd wedi troi at y BBC mewn niferoedd sylweddol yn ystod yr argyfwng er mwyn derbyn y wybodaeth a'r dadansoddi diweddaraf ynglŷn â'r sefyllfa yng Nghymru':

Ddiwedd Mawrth, denodd BBC Wales Today gynulleidfaoedd sylweddol, sy'n gyfystyr â 60% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru yn gwyllo'r bwletinâu, sef tua 1.47m ar draws un wythnos. Mae hyn yn gynydd o 40% o gymharu â'r un pryd y llynedd. Mae darllediadau Newyddion ar gyfer S4C – a gynhyrchir gan BBC Cymru – hefyd wedi gweld cynnydd, er ychydig yn hwyrach ar ddechrau Mai (yn ystod yr wythnos yn cychwyn 4ydd Mai), wrth i 80,000 wyllo unrhyw gynnwys newyddion yn ystod yr wythnos (cyrhaeddiad 3 munud). Roedd hyn yn gynydd o 76% o'i gymharu â'r un wythnos yn 2019.

⁴³ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 60

⁴⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 115

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

⁴⁶ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 140

Trodd cynulleidfaoedd niferus at ein safleoedd ar-lein hefyd er mwyn cael mynediad at wybodaeth ledled y DU. Ar gyfer safle newyddion ar-lein Saesneg BBC Cymru, ar ei uchaf, gwelwyd 5.7 miliwn o borwyr unigryw wythnosol ddechrau Ebrill. A gwelodd Cymru Fyw gynnydd yn nifer y defnyddwyr o bron i 70,000 o borwyr unigryw. Mae'r ymgysylltu â chynnwys Newyddion BBC Cymru ar Facebook wedi cyrraedd 1.2 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol ddiwedd Mawrth, sydd 5 gwaith yn fwy na chyfartaledd wythnosol 2020 cyn Covid-19.⁴⁷

33. Yn yr un modd, dywedodd Phil Henfrey wrth y Pwyllgor fod y gynulleidfa ar gyfer newyddion chwech o'r gloch ar ITV Cymru wedi cynyddu 12 y cant yn ystod pum wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, ac y bu cynnydd 300 y cant yn nefnyddwyr y wefan.⁴⁸

34. Er gwaethaf y cynnydd hwn yn y gynulleidfa, clywodd y Pwyllgor fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu heriau ariannol. Dywedodd Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru, wrth y Pwyllgor ar 25 Mehefin mai tua £4.5 miliwn yw'r effaith gyffredinol ar BBC Cymru yn y flwyddyn ariannol hon. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

That's about 5 per cent of our revenues, and it's a similar order of challenge next year. So, this year, we make the savings by reducing cash costs and content production; next year, we obviously need to be more strategic about it, and so we are looking at headcount reductions of around 60 posts.⁴⁹

35. Galwodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr ar Lywodraeth y DU i lenwi'r bwlch cyllid hwn a achoswyd gan y pandemig, 'yn hytrach na gosod toriadau ychwanegol ar y BBC sydd mewn sefyllfa ariannol heriol yn barod'.⁵⁰

36. Dywedodd Phil Henfrey wrth y Pwyllgor fod y pandemig hefyd wedi bod yn gyfnod anodd dros ben i ITV gyda gostyngiad tua 40 y cant mewn hysbysebion ym mis Ebrill a chynyrchiadau bron wedi'u hatal ar draws y byd.⁵¹ Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig BBC Cymru

⁴⁸ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 143

⁴⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 25 Mehefin, paragraff 197

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

⁵¹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 190

'A commercially successful ITV sustains the public service content that plays such a vital role in Wales. So, I think we've all got an interest in finding ways to enable ITV to be commercially successful in the environment in which it finds itself.'⁵²

Negeseuon Llywodraeth Cymru

37. Clywodd y Pwyllgor fod negeseuon Llywodraeth Cymru wedi gwella'n aruthrol⁵³ yn ystod y pandemig. Dywedodd Dr Ifan Morgan Jones fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn hynod agored ac yn hynod barod i ymgysylltu â'r wasg:

'I have actually seen them go out there and fix mistakes. They've done it on Twitter; I've noticed that when someone has put a story up saying one thing, they've actually commented as the Welsh Government in the Twitter comments and said, 'This is wrong; you need to fix this', and brought attention to that.'⁵⁴

38. Mae Dr Jones yn gobeithio y bydd yn parhau i wneud hyn y tu hwnt i'r pandemig.⁵⁵

39. Dywedodd Phil Henfrey fod tîm swyddfa'r wasg Llywodraeth Cymru wedi dysgu'r hyn y gall ei wneud i ymgysylltu'n well â darparwyr newyddion y DU:

'It recognised that it too has got to provide that information, it's got to make it easily available, it's got to provide points of contact for UK media. And it's done that, and it's reorganised itself, and from what I've heard from the UK media telling stories about Wales, that's been hugely welcome.'⁵⁶

40. O ran cywiro adroddiadau anghywir gan gyfryngau'r DU, dywedodd yr Athro Stephen Cushion wrth y Pwyllgor y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy. Dywedodd y canlynol:

'...this pandemic, as everyone has already said, is an opportunity, really, to start to highlight this more, to bring it to the attention of media regulators, to make it a big accuracy question. I think it would be hard

⁵² Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 190

⁵³ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 96

⁵⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 96

⁵⁵ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 96

⁵⁶ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 173

to police an accuracy question in terms of broadcasting across Chepstow and where do you draw the line and the difficulties within that, but I certainly think you could put more pressure on broadcasters and print regulators or news regulators as well to really try and address this in a way that they haven't really done over the last 20 years.'⁵⁷

41. Hefyd, clywodd y Pwyllgor fod sesiynau briffio'r cyfryngau a gynhelir gan Lywodraeth Cymru bob dydd wedi bod yn fuddiol iawn.⁵⁸ Yn ôl Gavin Thompson, adlewyrchir hyn yn eu ffigurau cynulleidfa, gyda chynnydd yn y gynulleidfa pan gyhoeddir y newyddion diweddaraf o'r sesiwn friffio.⁵⁹ Fodd bynnag, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn teimlo nad oes digon o ffocws wedi'i roi ar wybodaeth wedi'i haddasu yn ôl gwahaniaethau rhanbarthol.⁶⁰

Addysg

42. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd addysgu pobl ifanc am ddatganoli. Dywedodd Dr Ifan Morgan Jones y canlynol:

'Especially with votes coming in at 16, now, I think there needs to be some kind of education in our schools, as part of the curriculum, about what the Senedd does, so people naturally, perhaps, turn to the news in Wales for information about health and education and so forth.'⁶¹

43. Yn yr un modd, dywedodd yr Athro Stephen Cushion y dylai addysgu myfyrwyr newyddiaduraeth mewn prifysgolion am ddatganoli fod yn rhan o'r cwricwlwm:

'...when you're trained in journalism schools like in Cardiff University and other schools across the UK, even if you're English as well, you may not be as fussed, as interested in the some of the issues that we're discussing. It should be part of the curriculum to have a really good knowledge if you're going to start to report around education and health. But also that sensitivity, as well, between—there are reserved issues that are reported around the economy, the furlough scheme and

⁵⁷ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 91

⁵⁸ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 145

⁵⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 145

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

⁶¹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 68

so on, and then it can very quickly change back into something that's devolved.'⁶²

Ein barn ni

Bu awydd enfawr am newyddion yn ystod y pandemig ac mae wedi bod yn bwysicach nag erioed sicrhau bod gan bobl Cymru fynediad at newyddion sy'n gywir ac yn berthnasol iddynt.

Cyfryngau print lleol a rhanbarthol

Clywsom fod yr argyfwng wedi pwysleisio a gwaethygu rhai o'r problemau y mae cyfryngau Cymru yn eu hwynebu o ran gwasanaethu pobl Cymru yn ddigonol. Nid yw adrodd yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn hawdd i lawer o allfeydd cyfryngau print. Bu'n rhaid iddynt gydbwyso cynnydd yn y galw am newyddion lleol ag amgylchedd masnachu anodd iawn, o ganlyniad i'r dirywiad parhaus mewn gwerthiannau papurau newydd traddodiadol a gostyngiad difrifol mewn incwm hysbysebu. Er bod mwy o bobl yn cyrchu newyddion drwy lwyfannau ar-lein, nid yw hyn wedi troi'n refeniw o hysbysebu. Felly, mae darparwyr cyfryngau print wedi gorfod gwneud eu gorau i ateb galw cwsmeriaid gydag adnoddau cyfyngedig iawn.

Clywsom fod angen model busnes newydd ar frys ar gyfer darparu newyddion i helpu'r sefyllfa, er enghraifft, gosod newyddiaduraeth ddigidol y tu ôl i wal dalu. Dadleuodd tystion eraill dros fuddsoddi ar lefel hyperleol er mwyn sicrhau lluosogrwydd o leisiau yng nghyfryngau Cymru.

Ar adeg pan fo newyddiaduraeth yng Nghymru yn ymlafnio'n fwy nag erioed, yr hyn sy'n sicr yw bod angen model newydd ac arloesol ar frys i helpu'r sector a sicrhau bod gan bobl Cymru fynediad at wybodaeth berthnasol a chywir. Felly, yn nhymor yr hydref, byddwn yn gwneud rhagor o waith ar y mater hwn ac yn trafod modelau posibl. Yn y cyfamser, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r mater hwn hefyd.

Radio cymunedol

Clywsom fod gorsafoedd radio cymunedol yng Nghymru wedi bod â rhan allweddol wrth ddarparu gwybodaeth leol am y feirws i gymunedau Cymru ac

⁶² Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 113

ychwanegu llinyn arall at yr haenau o newyddion a ddarperir ar adeg pan nad oedd pobl yn gallu prynu papurau newydd.

Roedd mwy o bobl hefyd yn gallu cael gwybodaeth a oedd yn berthnasol i'w cymunedau ar FM ar ôl i Ofcom sicrhau bod trwyddedau cyfyngedig tymor byr ar gael ar frys oherwydd COVID-19. Rydym yn croesawu'r penderfyniad hwn ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i annog Ofcom i barhau i drwyddedu gorsafoedd radio cymunedol ychwanegol ar FM.

O ystyried y ffordd gadarnhaol y mae'r sector radio cymunedol wedi ymateb i'r argyfwng a'r gwasanaeth gwerthfawr y maent wedi'i ddarparu, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall helpu'r sector yn y dyfodol.

Darparwyr newyddion y DU

Mae'r gwahaniaethau ym mesurau'r cyfyngiadau symud ar draws y DU wedi cyfrannu i gynnydd mewn ymwybyddiaeth o ddatganoli, ond mae darparwyr newyddion y DU yn aml wedi cyhoeddi gwybodaeth sy'n adrodd yn anghywir ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae camwybodaeth yn niweidiol i ddemocratiaeth yng Nghymru ar yr adeg orau ond, yn ystod yr argyfwng presennol, mae'n tanseilio ymdrechion i fynd i'r afael â'r clefyd yng Nghymru. Felly, gwnaethom ysgrifennu at ein pwyllgor cyfatebol yn Nhŷ'r Cyffredin i dynnu sylw at ein pryderon ym mis Ebrill.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym y bu llawer o ddryswch ynghylch y mesurau o ran y cyfyngiadau symud datganoledig a'r gwahaniaethau ar draws y DU ymhlith dinasyddion Cymru. Dangosodd ymchwil a gynhaliodd Prifysgol Caerdydd fod hanner y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu'n anghywir mai Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am fesurau'r cyfyngiadau symud. Mae hyn yn peri pryder mawr o ystyried ei bod yn bwysicach nag erioed bod pobl mewn rhannau gwahanol o'r DU yn gwybod pa reolau sy'n gymwys iddynt.

Felly, rydym yn croesawu mentrau i sicrhau bod y polisïau a'r rheoliadau gwahanol sydd ar waith ar draws y DU yn cael eu hesbonio. Fodd bynnag, teimlwn y gellid gwneud llawer mwy i sicrhau dealltwriaeth y cyhoedd o'r feirws a'r ymdrechion i fynd i'r afael ag ef mewn rhannau gwahanol o'r DU. Mae'n rhaid i ni bwysleisio pwysigrwydd darparu gwybodaeth gywir i helpu i leihau achosion o'r haint ac achub bywydau.

Rydym yn cytuno â'r Athro Stephen Cushion y dylid atgoffa darlledwyr o'u hymrwymiad i'r pedair gwlad o ran newyddion rhwydwaith y DU. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog Ofcom i sicrhau bod darlledwyr yn cynnal

didueddrwydd drwy adrodd ar bob un o bedair gwlad y DU yn gyfartal, fel mater o drefn, ond yn enwedig mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd.

Rydym hefyd yn cytuno ag Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r modd y mae negeseuon iechyd y cyhoedd yn cael eu lledaenu yn ystod y pandemig. Yn sicr, mae gwersi gwerthfawr i'w dysgu o ran adrodd ar yr argyfwng gan ddarparwyr newyddion y DU.

Gwerth darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r argyfwng wedi tynnu sylw at rôl hanfodol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod yr argyfwng wrth roi gwybodaeth i bobl Cymru am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, a dystiolaethir gan y cynnydd yn y cynulleidfaoedd teledu ar gyfer rhaglenni newyddion ac ymhlith defnyddwyr eu gwefannau. Fodd bynnag, clywsom ei bod hefyd wedi bod yn gyfnod anodd iawn i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gydag angen i BBC Cymru wneud arbedion sylweddol ac ITV yn colli 40 y cant o'i refeniw hysbysebu.

Rydym yn pryderu bod angen i BBC Cymru arbed £4.5 miliwn y flwyddyn ariannol hon a £3.5-4 miliwn arall yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf fel rhan o gyfres o doriadau ledled y DU mewn ymateb i'r argyfwng. O gofio ei bod yn bwysicach nag erioed bod gan gynulleidfaoedd fynediad at newyddion a gwybodaeth o Gymru am Gymru, rydym yn cytuno â galwad Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr y dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i lenwi'r bwlch cyllid hwn, yn hytrach na gosod rhagor o doriadau ar y BBC sydd eisoes yn wynebu her ariannol. Mae angen cefnogi a gwarchod ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn hytrach na'u rhoi dan fygythiad mwy fyth.

Negeseuon Llywodraeth Cymru

Clywsom fod negeseuon Llywodraeth Cymru wedi gwella yn ystod yr argyfwng, gan gynnwys y sesiynau briffio cyfryngau dyddiol a'r ymdrechion i dynnu sylw at gamgymeriadau a adroddir yn y wasg a'u cywiro. Rydym yn croesawu hyn yn fawr ac yn gobeithio y bydd yn parhau y tu hwnt i'r pandemig.

Fodd bynnag, clywsom mai un peth sy'n rhwystro trafod materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith yw'r diffyg data safonedig rhwng y gwledydd. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â darlledwyr a newyddiadurwyr i sicrhau bod ganddynt y data angenrheidiol.

Addysg

Codwyd yr angen i addysgu pobl ifanc am ddatganoli a'r Senedd gan randdeiliaid, yn enwedig gan y bydd pobl 16 a 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiad nesaf y Senedd. Awgrymwyd y byddai gwneud hynny'n gwneud pobl yn fwy tebygol o droi at newyddion Cymru ar gyfer gwybodaeth am feysydd polisi datganoledig.

Byddwn yn ysgrifennu at y Llywydd i'w hysbysu y cododd problemau addysgu pobl ifanc am ddatganoli yn ystod yr ymchwiliad ac i ofyn beth y mae Comisiwn y Senedd yn ei wneud i baratoi pobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn yr etholiad ym mis Mai 2021.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru annog Ofcom i sicrhau bod darlledwyr yn cynnal cywirdeb a didueddrwydd drwy adrodd ar bob un o bedair gwlad y DU yn gyfartal, fel mater o drefn, ond yn enwedig mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad i'r Pwyllgor o ansawdd dosbarthu gwybodaeth am COVID-19 yn ystod y pandemig

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i lenwi'r bwlch o hyd at £8.5 miliwn yng nghyllid BBC Cymru.

3. Effaith uniongyrchol yr argyfwng a chymorth i'r sector

44. Clywodd y Pwyllgor fod y pandemig wedi 'taro diwydiant sy'n dioddef o gyflyrau iechyd sylfaenol'.⁶³ Dywedodd Alan Edmunds, prif swyddog gweithredu, Reach plc, y canlynol:

'...the sector has been structurally challenged for a long time; so much change in the industry because of the impact of digital. And the impact of the pandemic has been something like we've never experienced before.'⁶⁴

45. Dywedodd Emma Meese wrth y Pwyllgor y bu cwmp sylweddol mewn ffigurau cylchrediad print ddechrau'r pandemig oherwydd na allai pobl gyrchu

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

⁶⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 8

papurau newydd print, oherwydd bod yr holl allfeydd newyddion arferol ar gau, roedd yr holl siopau ar gau ac nid oedd pobl yn teithio ar fws nac ar drên.⁶⁵

Gostyngiad mewn refeniw hysbysebu

46. Esboniodd Paul Rowland fod effaith yr argyfwng wedi bod yn sylweddol o safbwynt masnachu gan nad yw busnesau lleol yn hysbysebu ac nad yw pobl yn prynu teitlau print oherwydd bod llawer o siopau ar gau.⁶⁶ Yn ôl Alan Edmunds, ar anterth y pandemig, nid oedd tua 80 y cant o hysbysebwr lleol yn hysbysebu.⁶⁷

47. Dywedodd Gavin Thompson hefyd mai'r gostyngiad mewn refeniw o hysbysebu fu'r effaith ariannol fwyaf. Esboniodd fod y rhan fwyaf o hysbysebion Newsquest o fusnesau bach a chanolig lleol nad oeddent yn gallu masnachu a hysbysebu yn ystod y pandemig.⁶⁸ Er y bu twf mewn cynulleidfaoedd ar-lein, dywedodd Gavin Thompson nad yw hyn wedi troi'n refeniw o hysbysebu a nododd y camau a gymerwyd i geisio codi refeniw:

'We've promoted our home deliveries. There's been an increase year-on-year in our home deliveries, for example, of the South Wales Argus. We've also introduced digital subscriptions for heavier users in our larger sites, like the Argus and the Western Telegraph. And those things all help, but they're small beer compared to the advertising revenue that's been lost.'⁶⁹

48. Hefyd, clywodd y Pwyllgor fod '[c]wymp sylweddol wedi bod mewn incwm o hysbysebu' wedi achosi 'trallod mawr' ar radio cymunedol yng Nghymru.⁷⁰ Er enghraifft, dywedodd Môn FM y canlynol yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

'In total, approximately 40 external outside broadcasts and public events had to be cancelled due to the pandemic. Those cancellations resulted in the station losing valuable income from e.g. local sponsorship of events, advertising and promotions – that income was mission critical to help keep the station going throughout the year. To compound things and to make things worse, large-scale advertising agencies pulled (cancelled) 100% of advertising campaigns, rendering

⁶⁵ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 36

⁶⁶ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 11

⁶⁷ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 16

⁶⁸ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 184

⁶⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 184

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru

the station in a no-win financial satiation, with ZERO income to keep paying bills, and no option to generate any income from its usual multiple streams. It's hard enough in 'normal' times to keep a flow of income to pay the bills, but in the situation created by the pandemic – there is no alternative means to continue to pay normal running costs.'⁷¹

Cyflymu newid

49. O ganlyniad i'r effaith enfawr⁷² ar fasnachu a refeniw, clywodd y Pwyllgor fod y pandemig yn cyflymu newid yn y sector. Yn ôl Dr Ifan Morgan Jones:

'A'r hyn mae coronafeirws wedi ei wneud mewn gwirionedd, yn fy marn i, ydy prysuro'r broses gan tua dwy neu dair blynedd oedd yn digwydd beth bynnag. Ond efallai fod yna rai manteision yn hynny o beth o ran y ffaith bod y sefyllfa wedi mynd mor argyfyngus heddiw y byddwn ni'n deffro'n hunain, mewn gwirionedd, i'r brys a'r angen i weithredu i wneud rhywbeth am hyn, achos dwi'n meddwl ei fod yn fygythiad go iawn i ddatganoli ei hun.'⁷³

50. Esboniodd Gavin Thompson fod rhai o'r problemau sy'n wynebu'r sector yno eisoes, er enghraifft, dirywiad tymor hir yng ngwerthiant papurau newydd, a bod newidiadau i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn wedi'u cyflymu o ganlyniad i'r pandemig. Dywedodd y canlynol:

'So, newspaper buying is habit. People who haven't been going out have broken that habit. We hope they will return to it, but that's a challenge we face. But what it's also done, really, is taken the legs out from under a lot of publishers in terms of attempts to refocus on digital revenues, because the digital advertising revenues just haven't been there and that has made it much harder for—it's taken away that source that we've been migrating to.'⁷⁴

51. Mewn modd tebyg, dywedodd Alan Edmunds fod newidiadau a allai fod wedi'u gwneud dros gyfnod hwy ar draws llawer o ddiwydiannau bellach yn cael eu gwneud ar hyn o bryd.⁷⁵ Esboniodd fod Reach plc yn trawsnewid y busnes i

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Môn FM

⁷² Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 9

⁷³ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 43

⁷⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 196

⁷⁵ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 35

sicrhau ein bod yn bodloni amodau'r farchnad a'n bod yn bodloni gofynion ein cynulleidfa mewn print ac ar-lein.⁷⁶

52. Clywodd y Pwyllgor fod Reach a Newsquest yn bwriadu torri swyddi yng Nghymru. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr fod Newsquest wedi torri 25 o swyddi yng Nghasnewydd a Gogledd Cymru ac, ym mis Gorffennaf, y 'dywedodd Reach wrth fwy na 90 o newyddiadurwyr yng Nghymru eu bod mewn perygl o golli eu swyddi oherwydd y refeniwiau a gollwyd yn ystod y cyfyngiadau symud'.⁷⁷ Yn dilyn hynny, dywedodd Reach wrth y Pwyllgor fod tua 20 o swyddi newyddiadurwyr yn debygol o gael eu colli yng Nghymru. Mae Newsquest yn dileu 25 o'i swyddi yng Nghymru.⁷⁸

53. Dywedodd Martin Shipton, cadeirydd capel grŵp Reach Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr ac aelod o Gyngor Gweithredu Cymru yr undeb, y canlynol wrth y Pwyllgor:

'Our fear is that because they are reducing the number of Welsh writers based in Wales, they will be replacing some of that material, or the material that would otherwise be supplied from Wales, with generic material. You could have features, for example, about health matters and education matters that would not acknowledge the devolution settlement in any way.'⁷⁹

54. Hefyd, dywedodd wrth y Pwyllgor fod gweithwyr Reach wedi drysu ac mewn sioc pan gyhoeddwyd bod 550 o swyddi mewn perygl oherwydd y canlynol:

'at the time when the whole issue about the impact of COVID on the economy was taking place initially, we had an e-mail from the chief executive of Reach, who was seeking to reassure us about the resilience of the company, and to tell us that we needn't worry unduly about what was going to happen.'⁸⁰

⁷⁶ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 35

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Reach plc

⁷⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, Paragraff 159

⁸⁰ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 137

55. Esboniodd Pamela Morton, trefnydd llawrydd cenedlaethol Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, fod gan Reach £20 miliwn wrth gefn ac y disgwylid y byddai'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i ddod drwy'r gwaethaf.⁸¹

56. Hefyd, clywodd y Pwyllgor fod Reach yn bwriadu ad-drefnu'r cwmni, gan gynnwys uno Media Wales â'r adran yng nghanolbarth Lloegr. Cododd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr bryderon ynghylch yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar luosogrwydd ac ansawdd newyddiaduraeth yng Nghymru. Dywedodd Martin Shipton y canlynol:

'We're concerned about the dilution of Welsh content and we think that that is counterproductive from a business point of view, because if people find that the titles are not giving them as much Welsh content as they expect, they're not going to be forking out £2.10 on a Saturday for something that includes material that is produced in England for an English audience.'⁸²

57. Yn ôl Martin Shipton, byddai uno Media Wales â'r adran yng nghanolbarth Lloegr yn golygu bod cynnwys mwy cyffredin yn cael ei greu ar draws llwyfannau Reach a byddai cynnwys Cymreig yn cael ei ddisodli gan uned cynnwys a rennir yn Lloegr sy'n creu straeon ac ysgrifau nodweddiadol cyffredinol.⁸³

58. Fodd bynnag, dywedodd Alan Edmunds nad yw Reach yn uno Cymru â chanolbarth Lloegr:

'All the editorial accountability stays in Wales. The midlands and Wales combination is for purely operational reasons and logistical and financial. It's got absolutely no impact at all on the way we work editorially. So, there is no change to the fact that all the Wales editorial decisions are made in Wales and run by Paul. Paul previously reported directly in to me; Paul still reports in centrally, so there's very little change in the way that we run anything from that perspective, and certainly there's no merger of Wales and the midlands from an editorial perspective. It is merely a behind the scenes, logistical change that we've made.'⁸⁴

⁸¹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 140

⁸² Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 160

⁸³ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 158

⁸⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 31

59. Clywodd y Pwyllgor bryderon bod y penderfyniadau ariannol hyn a phenderfyniadau ar lawr gwlad yn cael eu gwneud ar lefel busnes yn unig, nid ar effaith ar lefel gymunedol a democratiaeth.⁸⁵ Dywedodd Martin Shipton y canlynol:

'...Welsh democracy is served by having a thriving media sector and that this constant chipping away at journalists and the number of journalists employed is very debilitating and is not good for Welsh democracy.'⁸⁶

60. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, ysgrifennodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr y canlynol:

'Mae gwir berygl y bydd y pwysau ariannol ar bapurau newydd, darlledu a'r cyfryngau newydd yn amharu ar yr ymdrechion i wella amrywiaeth o ran cefndir, daearyddiaeth, iaith a hunaniaeth, a'r amrywiaeth o bersbectifau a ddaw yn sgil hyn ar gyfer newyddiaduraeth er budd y cyhoedd. Mae amrywiaeth yn cynyddu perthnasedd ac ymgysylltu ac yn taflu goleuni ar storïau a allai gael eu hanwybyddu fel arall, ond sy'n bwysig i wahanol gymunedau.'⁸⁷

61. Ar 15 Gorffennaf, dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wrth y Senedd ei fod yn mynd i ofyn am gyfarfod â rheolwyr Reach.⁸⁸ Fodd bynnag, ar 5 Awst, dywedodd Alan Edmunds wrth y Pwyllgor na fu dim trafodaeth â Llywodraeth Cymru am y cynigion yn Reach.⁸⁹

62. Dywedodd Paul Rowland eu bod yn awyddus iawn⁹⁰ i gael y ddeialog honno â Llywodraeth Cymru:

'Our doors are open, literally and figuratively, to discussions with you at any time, and the Welsh Government at any time, about the role that they can play in the future of our business, and their input into how they think our business should run and our views on that as well, of course.'⁹¹

⁸⁵ Emma Meese, Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 34

⁸⁶ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, Paragraff 190

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

⁸⁸ <https://record.assembly.wales/Plenary/6403#C303156>

⁸⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 93

⁹⁰ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 99

⁹¹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, Paragraff 98

Cefnogaeth gan Lywodraeth y DU i weithwyr

63. Clywodd y Pwyllgor fod y Cynllun Cadw Swyddi gan Lywodraeth y DU wedi'i ddefnyddio'n helaeth yng Nghymru. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr:

Mae Reach plc, sy'n berchen ar y Western Mail, South Wales Echo, Daily Post a'r South Wales Evening Post, ynghyd â Wales Online a chyfres o bapurau newydd wythnosol lleol, wedi ffyrlo tua hanner ei staff golygyddol ar unrhyw adeg benodol. Mae Newsquest, sy'n berchen ar y South Wales Argus a The Leader, ynghyd â phapurau newydd wythnosol lleol, wedi mabwysiadu mesurau tebyg...⁹²

64. Dywedodd Alan Edmunds wrth y Pwyllgor fod y cynllun yn allweddol o ran sicrhau bod Reach plc yn gallu cadw ei weithwyr ar y gyflogres wrth geisio ad-drefnu'r busnes.⁹³ Dywedodd Gavin Thompson fod y cynllun wedi arbed swyddi ac y byddai mwy o swyddi'n cael eu dileu hebdo.⁹⁴

65. Galwodd rhanddeiliaid i'r cynllun gael ei ymestyn y tu hwnt i ddiwedd mis Hydref, gan ofni ei bod yn bosibl y byddai 'llif o swyddi'n diflannu a phapurau newydd yn cau⁹⁵ wrth iddo ddod i ben. Dywedodd Pamela Morton fod angen ei ymestyn⁹⁶ a dywedodd Alan Edmunds y byddai Reach yn croesawu ei ymestyn.⁹⁷ Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor bryderon nad yw cwmnïau'n defnyddio'r cynllun ffyrlo nes iddo ddod i ben.⁹⁸

66. Galwodd Pamela Morton ar fusnesau i ddefnyddio'r cynllun cyhyd ag y bo modd, yn hytrach na dileu swyddi,⁹⁹ ond, ar y llaw arall, dywedodd Alan Edmunds y canlynol:

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

⁹³ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 26

⁹⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 185

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

⁹⁶ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 204

⁹⁷ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 26

⁹⁸ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 204

⁹⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 204

Furlough ends soon and we need to plan for the future on that basis, because we have to provide a stable platform for the business over the long term.¹⁰⁰

67. Hefyd, dywedodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr wrth y Pwyllgor fod ei aelodau 'wedi dioddef toriadau cyflog' a bod y 'rhain wedi bod yn ergyd drom i'n haelodau, yn enwedig ar ôl blynyddoedd maith o godiadau cyflog is na chwyddiant' a bod newyddiadurwyr llawrydd 'wedi dioddef ergyd drom wrth i'w dyddiaduron gwaith wagio dros nos oherwydd gwahardd chwaraeon a chanslo digwyddiadau mawr fel Gŵyl y Gelli Gandryll, Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol a chynadleddau pleidiau'.¹⁰¹ Mae llawer o weithwyr llawrydd wedi canfod nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig gan Lywodraeth y DU.

68. Datgelodd arolwg a gynhaliwyd gan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr nad oedd traean o'r gweithwyr llawrydd yn credu y byddai eu hincwm yn gwella tan 2021; dywedodd 39 y cant nad oeddent yn disgwyl i gyfleoedd gwaith wella am dri i chwe mis; a dywedodd 16 y cant nad oeddent yn disgwyl gwneud bywoliaeth o gwbl yn dilyn y pandemig.¹⁰²

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

69. Ym mis Mai, ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn gofyn sut roedd yn cefnogi cyfryngau lleol yn ystod yr argyfwng. Nododd ymateb Llywodraeth Cymru y canlynol:

- £2 biliwn o gymorth cyffredinol i fusnesau;
- Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector gwerth £24 miliwn;
- £76,500 wedi'i ddosbarthu i naw sefydliad newyddion cymunedol (£8,500 yr un) o ganlyniad i addasu at ddibenion gwahanol yr arian sy'n weddill o'r gronfa Newyddion Cymunedol Annibynnol gwerth £200,000, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019 i gefnogi'r sector hyperleol. Mae cyllid drwy'r cynllun hwn wedi'i addasu at ddibenion gwahanol i

¹⁰⁰ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 26

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

ddarparu cyllid grant brys ar gyfer costau o ddydd i ddydd yn ystod yr argyfwng).¹⁰³

70. Dywedodd Emma Meese fod y cyllid grant brys, sef £8,500 ar gyfer costau o ddydd i ddydd yn ystod yr argyfwng, yn sicr yn rhaff achub sydd wedi achub y sector newyddion cymunedol annibynnol yng Nghymru a dywedodd mai Llywodraeth Cymru yw'r unig lywodraeth ar draws y DU sydd wedi bod mor flaengar wrth drosglwyddo'r cymorth hwnnw.¹⁰⁴ Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

'...we have 113 members across the UK now, and we did a survey asking how much money and financial support they've had. So, from UK Government, 95 per cent of our members have not received one single penny to date at all whatsoever from any source. They fall through the cracks of what's relevant.'¹⁰⁵

71. Clywodd y Pwyllgor mai un ffordd gyflym a hawdd o helpu'r sector fyddai edrych ar hysbysiadau statudol.¹⁰⁶ Yn ei adroddiad yn 2018 ar Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru,¹⁰⁷ mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n ddi-oed i nodi'r newidiadau sydd eu hangen o fewn ei chymhwysedd er mwyn galluogi hysbysiadau statudol i gael eu cyhoeddi gan ddarparwyr hyperleol ac ar-lein.¹⁰⁸ Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid rhoi hysbysiadau statudol mewn papurau newydd ac, wrth wneud hynny, yn rhoi darparwyr newyddion hyperleol ac ar-lein dan anfantais.

72. Yn ôl Emma Meese, byddai caniatáu i ddarparwyr newyddion hyperleol ac ar-lein gyhoeddi hysbysiadau statudol yn helpu i sicrhau y caiff pawb ei drin yn yr un modd:

'...at the moment there's a real unfair advantage for the big organisations, the big corporates, because they get access to furlough money, they've had access to the advertising money, and yet these job cuts are still being made. So I think it's important that we stress that, in

¹⁰³

<https://business.senedd.wales/documents/s102879/Correspondence%20with%20Welsh%20Government%20regarding%20local%20media.pdf>

¹⁰⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 32

¹⁰⁵ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 34

¹⁰⁶ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 39

¹⁰⁷ <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11544/cr-ld11544-w.pdf>

¹⁰⁸ <https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld11544/cr-ld11544-w.pdf>

Wales, all of our members are continuing to publish. They're publishing really high-quality regular content. All of them have seen web traffic double, and it's really important that we support this, moving forward. And I think one of the ways that we could look at that is looking at the issue of statutory notices. So it's not finding extra money, but again it's levelling the playing field. Because for Newsquest in April, 25 per cent of their income came from statutory notices. So that's a substantial unfair advantage that they have.'¹⁰⁹

73. Mewn llythyr at y Pwyllgor ym mis Ebrill, galwodd Paul Rowland ar Lywodraeth Cymru i ofyn i awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio cyhoeddwyr lleol i ddangos hysbysiadau cyhoeddus, sy'n parhau i fod yn ffynhonnell refeniw hanfodol i ni a busnesau fel ni.¹¹⁰ Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd y canlynol:

'...public notices have long been an incredibly important revenue stream that has supported local newspapers...I wasn't asking, in my letter there, for anything new to happen—just a continuation of something that has long been a very important pillar in supporting the production of local news.'¹¹¹

74. Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor am wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r modd y mae'n gosod hysbysiadau diogelwch cyhoeddus ar argyfwng COVID-19 gyda'r cyfryngau lleol, dywedodd Llywodraeth Cymru y canlynol:

'Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio'n agos gyda'i phrynwyr cyfryngau arbenigol, wedi sicrhau bod gorsafoedd radio lleol a chymunedol a chyfryngau newyddion lleol ledled Cymru yn cael eu cynnwys yn y gwaith o brynu cyfryngau ar gyfer yr holl waith ar COVID-19, gan gynnwys ymgyrchoedd o dan ymbarél 'Diogelu Cymru'.¹¹²

75. Yn ei lythyr at y Pwyllgor ym mis Ebrill, galwodd Paul Rowland hefyd ar Lywodraeth Cymru i estyn ei seibiant ardrethi busnes a gyflwynwyd ar gyfer y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden i gynnwys papurau newydd.

¹⁰⁹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 13 Gorffennaf, paragraff 39

¹¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Media Wales

¹¹¹ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 107

¹¹²

<https://business.senedd.wales/documents/s102879/Correspondence%20with%20Welsh%20Government%20regarding%20local%20media.pdf>

Dywedodd wrth y Pwyllgor ym mis Awst fod y seibiant ardrethi busnes eisoes wedi'i estyn i fusnesau na fyddai pobl, yn ôl pob tebyg, o'r farn eu bod yn ymgymryd â'r un ddyletswydd gyhoeddus â chyhoeddwyr newyddion.¹¹³

76. O ran cymorth arall gan Lywodraeth Cymru, esboniodd Gavin Thompson fod Newsquest wedi bod yn gofyn am ragor o gymorth ac wedi bod yn aflwyddiannus yn ei gais am gymorth ariannol gan y Gronfa Cadernid Economaidd. Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai Newsquest yn ddiolchgar iawn pe bai modd iddo gael rhywfaint o'r cyllid brys er mwyn goroesi.¹¹⁴ Hefyd, dywedodd ei fod wedi ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llwyfan cyfryngau Cymreig cenedlaethol newydd a allai arbed swyddi, ond nad yw'r cymorth hwnnw wedi dod eto.¹¹⁵

77. O ran cymorth ar gyfer radio cymunedol yng Nghymru, yn ôl gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru:

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r Gronfa Radio Cymunedol gwerth £400,000 sy'n cael ei gweinyddu gan Ofcom yn cael ei defnyddio i roi cymorth hanfodol i orsafoedd radio y mae'r coronafeirws wedi cael yr effaith drymaf arnynt. Gwahoddwyd gorsafoedd cymwys i wneud cais am grant brys i helpu i dalu eu costau craidd. Ar 4 Mehefin cyhoeddodd Ofcom ganlyniadau'r broses hon, gyda dwy orsaf radio gymunedol yng Nghymru yn llwyddo yn eu cais am gyllid brys i'w helpu yn ystod yr argyfwng COVID-19 presennol. Mae'r ffigwr hyn yn adlewyrchu'r nifer fach o orsafoedd radio yng Nghymru a wnaeth gais am gyllid.¹¹⁶

78. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Môn FM nad yw cronfa Ofcom yn ateb derbyniol ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru. Ysgrifennodd y canlynol:

'Realistically, the chances of under 20 stations in Wales accessing this fund are very low given the total number of UK applications – stations have become hesitant to apply, possibly due to the grant ordinarily

¹¹³ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh, 5 Awst, paragraff 106

¹¹⁴ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh 13 Gorffennaf, paragraff 213

¹¹⁵ Cyfarfod y Pwyllgor DGCh 13 Gorffennaf, paragraff 187

¹¹⁶

<https://business.senedd.wales/documents/s102879/Correspondence%20with%20Welsh%20Government%20regarding%20local%20media.pdf>

fav[er]ring developmental aspects rather than baseline revenue running costs.’¹¹⁷

79. Yn lle hynny, galwodd Môn FM ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

‘...the re-instatement of an annual fixed-sum of revenue (proportional to actual running costs) to each community radio station across Wales to help make such stations more sustainable going forward. This could be in the form of a fixed-term payment or annual grant, or payment for a minimum number of Government advertising slots per station per year.’¹¹⁸

80. Galwodd Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru hefyd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer 'cymorth ariannol... gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol Cymraeg, sy'n gwasanaethu cymunedau yn ddygus ar draws y wlad', gan ychwanegu na fyddent yn gallu goroesi heb gymorth ariannol.¹¹⁹

Ein barn ni

Mae'r argyfwng wedi rhoi rhagor o straen ar fodel busnes mwyfwy bregus. Mae'r gwendidau strwythurol ym maes newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru a welsom yn ein hadroddiad yn 2018 i Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru yn cael eu profi i'r eithaf.

Gostyngiad mewn refeniw hysbysebu

Clywsom fod effaith yr argyfwng wedi bod yn drychinebus o safbwynt masnachu gan nad yw busnesau lleol yn hysbysebu ac am nad yw pobl yn prynu papurau newydd. Er y bu codiad mawr o ran cynulleidfaoedd ar-lein yn ystod y pandemig, nid yw hyn wedi troi'n refeniw yn sgîl hysbysebu. Ar anterth y pandemig, nid oedd tua 80 y cant o hysbysebwr lleol yn hysbysebu.

Hefyd, clywsom bryderon am y risg ariannol i'r sector radio cymunedol yng Nghymru o ganlyniad i gwmp mewn incwm hysbysebu. Mae'n destun pryder mawr na fydd rhai gorsafoedd radio cymunedol sy'n darparu gwasanaeth

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Môn FM

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Môn FM

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru

newyddion a gwybodaeth lleol gwerthfawr i wrandawyr, o bosibl, yn goroesi'r pandemig.

Cyflymu newid

Rydym yn deall bod y pandemig wedi cyflwyno heriau enfawr i sector a oedd eisoes yn cael trafferth. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod newidiadau a allai fod wedi cael eu gwneud dros gyfnod hwy i fynd i'r afael â rhai o'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu yn cael eu cyflymu mewn ymateb i'r pandemig.

Ni ddylai penderfyniadau busnes tymor hir a allai arwain at ganlyniadau dinistriol ar gyfer newyddiaduraeth yng Nghymru fod wedi cael eu gwneud yng nghanol argyfwng. Ni ddylai darparwyr cyfryngau ddefnyddio'r pandemig hwn i gyflymu eu cynlluniau i ailstrwythuro i fynd i'r afael â phroblemau hirdymor. Mae perygl y gallai gwneud penderfyniadau parhaol a phwysig nawr gael effaith fwy difrifol na phe bai penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud yn ddiweddarach pan fyddai gennym ddealltwriaeth gliriach o effaith y pandemig. Teimlwn y gallai mwy gael ei wneud i ddod drosti pe bai cwmnïau'n defnyddio'r cynllun ffyrlo i'r eithaf ac yn defnyddio eu cronfeydd arian wrth gefn.

Rydym yn pryderu nad yw'r cynigion a gyflwynir gan Reach er budd Cymru a democratiaeth Cymru. Fel y clywsom gan randdeiliaid, gwasanaethir democratiaeth Cymru drwy gael sector cyfryngau ffyniannus. Gallai torri swyddi ac uno swyddogaethau ag adrannau yn Lloegr gael effaith ddifrifol ar luosogrwydd ac ansawdd newyddiaduraeth yng Nghymru.

Cymorth gan Lywodraeth y DU

Mae'r Cynllun Cadw Swyddi gan Lywodraeth y DU wedi'i ddefnyddio'n helaeth yn y sector. Fodd bynnag, rydym yn bryderus ei bod yn ymddangos bod y cynllun wedi troi'n rhywbeth i bobl sy'n aros i'w swyddi gael eu dileu a'i bod yn bosibl y byddai llif o swyddi'n diflannu a phapurau newydd yn cau pan ddaw i ben ym mis Hydref.

Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i lobïo Llywodraeth y DU i estyn y cynllun y tu hwnt i fis Hydref er mwyn rhoi mwy o amser i fusnesau gynllunio ar gyfer y dyfodol ac osgoi gwneud penderfyniadau pwysig a pharhaol, gyda chanlyniadau difrifol o bosibl, yng nghanol yr argyfwng hwn.

Hefyd, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain sgysiau â chynrychiolwyr o'r sector i gael dealltwriaeth gliriach o'r cymorth uniongyrchol sydd ei angen a thrafod atebion heblaw am ddileu swyddi. Rydym yn pryderu am y diffyg ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Reach hyd yn hyn, er bod y Dirprwy

Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi ymrwymo i gyfarfod â rheolwyr Reach. Mae dirywiad newyddiaduraeth newyddion masnachol yng Nghymru yn fater polisi cyhoeddus dwys y mae angen ymdrin ag ef fel mater blaenoriaeth.

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i addasu gweddill y gronfa Newyddion Cymunedol Annibynnol a lanswyd yn 2019 at ddibenion gwahanol i gefnogi'r sector newyddion hyperleol er mwyn darparu cyllid grant brys ar gyfer costau o ddydd i ddydd yn ystod yr argyfwng. Fodd bynnag, clywsom y gellai mwy gael ei wneud i helpu'r sector.

Awgrymodd rhanddeiliaid mai ffordd gyflym a hawdd o helpu'r sector fyddai trin pawb yn yr un modd o ran hysbysiadau statudol. Yn ystod y pandemig, mae sefydliadau mawr wedi cael incwm o hysbysiadau statudol, yn ogystal ag arian ffyrlo, tra bo darparwyr newyddion hyperleol ac ar-lein hefyd yn cael trafferth, ond na allant gyhoeddi hysbysiadau statudol. Yn ystod yr argyfwng hwn, rydym wedi gweld y gwerth a'r diddordeb mewn cael newyddion lleol. Felly, rydym yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaed yn ein hadroddiad yn 2018 ar Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n ddi-oed i nodi'r newidiadau sydd eu hangen o fewn ei chymhwysedd er mwyn galluogi hysbysiadau statudol i gael eu cyhoeddi gan ddarparwyr newyddion hyperleol ac ar-lein.

Rydym yn falch y bu dwy orsaf radio cymunedol yng Nghymru yn llwyddiannus yn eu cais am gyllid brys i'w helpu yn ystod argyfwng presennol COVID-19. Fodd bynnag, clywsom y gallai mwy gael ei wneud i helpu'r sector ac y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol yn ychwanegol at yr hyn a ddosberthir gan Ofcom ar ran Llywodraeth y DU.

Mae gorsafoedd radio cymunedol wedi bod â rhan hanfodol wrth ddarparu newyddion a gwybodaeth leol yn ystod yr argyfwng a byddai'n drueni mawr pe na baent yn gallu goroesi'r cyfnod hwn. Felly, rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol ar gyfer gorsafoedd radio y mae eu perchnogion yng Nghymru ac sy'n drwyddedig ac yn gweithredu yng Nghymru.

Clywsom nad yw cwmnïau cyfryngau megis Newsquest wedi gallu cael gafael ar gyllid brys Llywodraeth Cymru megis y Gronfa Cadernid Economaidd. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol bod y sector, sydd eisoes wedi wynebu her ddifrifol, yn cael buddsoddiad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i fynd drwy'r argyfwng

enbyd. Ni all Cymru fforddio colli mwy o allfeydd cyfryngau. Bydd gostyngiad yn nifer y newyddiadurwyr sy'n gweithredu yng Nghymru yn arwain at wanhau cynnwys Cymreig, gan ei gwneud yn anoddach fyth i bobl Cymru gael gafael ar newyddion a gwybodaeth sy'n gywir ac yn berthnasol.

Roeddem yn falch fod y Prif Weinidog wedi dweud bod y cynnig i ddileu swyddi yng Nghymru yn 'niweidiol' i ddemocratiaeth yng Nghymru¹²⁰. Fodd bynnag, heblaw am gymorth, sydd i'w groesawu, ar gyfer cyhoeddiadau hyperleol, nid yw'n eglur sut y mae Llywodraeth Cymru wedi troi'r pryder hwn yn gamau gweithredu. Mae democratiaeth yn gofyn am wasg iachus i roi gwybodaeth i'r cyhoedd a chraffu ar barth y cyhoedd. Mae'n baradocs annerbyniol, wrth i'r Senedd ennill rhagor o bwerau, fod newyddiaduraeth er budd y cyhoedd wedi encilio o Gymru. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau cadarnhaol ar frys i gefnogi newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru, ac yn gobeithio trafod y mater hwn yn fanylach yn nhymer yr hydref.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i barhau â'r Cynllun Cadw Swyddi y tu hwnt i fis Hydref 2020 ar sail sectorau, fel cydnabyddiaeth o'r ffaith na fydd y rhan fwyaf o'r busnesau newyddiaduraeth newyddion yn gallu dychwelyd i'r lefelau gweithgarwch economaidd a gafwyd cyn y pandemig am gryn amser.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru annog busnesau i ddefnyddio Cynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU wrth iddynt drafod atebion tymor hwy, yn hytrach na dileu swyddi gweithwyr.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru arwain sgysiau â chynrychiolwyr o'r sector i gael dealltwriaeth gliriach o'r cymorth uniongyrchol sydd ei angen a thrafod atebion heblaw am ddileu swyddi.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n ddi-oed i nodi'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn galluogi hysbysiadau statudol i gael eu cyhoeddi gan ddarparwyr hyperleol ac ar-lein.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol y mae eu perchnogion yng Nghymru ac sy'n drwyddedig ac yn gweithredu yng Nghymru.

¹²⁰ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-53336035>

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau cadarnhaol i annog newydd-ddyfodiaid i'r farchnad a chefnogi dulliau arloesol o ddarparu newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru.

Atodiad A – Rhestr o’r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a ddaeth i law

Darparodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i’r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld **trawsgriadau o’r sesiynau tystiolaeth lafar** ar ein gwefan.

Dyddiad	Enw a sefydliad
13 Gorffennaf 2020	Andrew Dagnell, ITV News Emma Meese, Prifysgol Caerdydd Gavin Thompson, Newsquest Ifan Morgan Jones, Prifysgol Bangor Phil Henfrey, ITV Cymru Wales Stephen Cushion, Prifysgol Caerdydd Steve Johnson, Prifysgol De Cymru
5 Awst 2020	Alan Edmunds, Reach plc Martin Shipton, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ) Pamela Norton, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ) Paul Rowland, Cyfryngau Cymru

Daeth tystiolaeth ysgrifenedig i law’r Pwyllgor hefyd. Mae modd gweld yr holl **ymatebion i’r ymgynghoriad** ar ein gwefan. Defnyddiwyd y cyfraniadau ysgrifenedig a ganlyn yn yr adroddiad hwn:

Cyfeirnod	Sefydliad
COV01	Cyfryngau Cymru / Media Wales
COV04	Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru
COV31	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
COV57	Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ)
COV71	BBC Cymru
COV78	Môn FM
COV82	Reach plc